

ATODIAD 2a - BIDIAU REFENIW PARHAOL

BIDIAU REFENIW PARHAOL 2023/24

	Teitl y Bid	Manylion y Bid	Swm Parhaol a argymhellir (£)
ADDYSG			
Bid 1	Pris Darparu Cinio Ysgolion Cynradd, Dilydol ac Arbennig	<p>Mae costau darparu cinio ysgolion cynradd, arbennig a dilydol yn cynyddu 15.9% yn 2023/24. Mewn blwyddyn arferol, er mwyn cwrdd â'r costau hynny, byddai angen codi pris cinio o £2.50 i £2.90 (cynydd o 16% = 40c). Gan fod y pris wedi ei rhewi dros y blynyddoedd, a chostau wedi cynyddu, mae hyn yn naturiol wedi creu 'sybsidi', rhwng yr hyn mae rhiant yn ei dalu, a'r hyn mae'n costio i gynhyrchu'r pryd.</p> <p>Erbyn Medi 2023, bydd holl ddisgyblion oed cynradd yn derbyn cinio am ddim, gyda disgyblion cyfnod sylfaen (4 i 7 oed), wedi cychwyn yn 2022/23.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu cost yr uned (h.y. pris maent yn talu fesul pryd sydd yn cael ei ddarparu), ar £2.90. Oherwydd y 'sybsidi' a'r chwyddiant sylweddol eleni, nid yw'r £2.90 yr uned yn ddigonol i gyfarch cost i gynhyrchu pryd.</p>	285,580
OEDOLION, IECHYD A LLESIANT			
Bid 2	Bid Cyflogau Staff (Darparu, Anabledd Dysgu a Iechyd Meddwl)	Mae swydd disgrifiadau holl staff rheng flaen y maes gofal oedolion mewnol wedi cael eu hadolygu a'u hail arfarnu. Mae'r bid felly am y gwahaniaeth rhwng y graddfeydd cyflog cyfredol a'r arfarniad newydd.	1,570,720
Bid 3	Oed Trosglwyddo: Anableddau Dysgu	<p>Bydd nifer o unigolion sydd wedi bod yn derbyn gwasanaeth gan yr Adran Plant a Theuluoedd yn troi yn 18 oed ac yn cychwyn derbyn gwasanaeth gan y Gwasanaeth Anableddau Dysgu yn ystod 2023/24. Mae 10 o'r unigolion yma wedi eu hadnabod yn becynnau gofal lle bydd costau ychwanegol i'r Gwasanaeth Anabledd Dysgu. Yn ogystal, mae 4 unigolyn arall wedi troi yn 18 yn ystod 2022/23 lle mae angen bidio am effaith flwyddyn lawn eu pecynnau gofal. Bydd angen cwrdd ag anghenion yr unigolion a'u gofaluwr yn unol â'r asesiad anghenion, er mwyn cwrdd ag allbynnau llesiant penodol yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.</p> <p>Pwysleisiwn y bydd nifer uwch o blant yn trosglwyddo i'r Gwasanaeth Anabledd Dysgu yn ystod y flwyddyn i ddod, ond mae llawer o'r pecynnau gofal yn rhai fydd yr Adran yn eu cyfarch heb adnodd ychwanegol. Mae'r bid ar gyfer yr achosion lle mae costau gofal mwy sylweddol.</p>	155,760

Bid 4	Ffioedd Nyrsio EMI	<p>Mewn cyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd ar 28/06/22, penderfynwyd cynyddu ffioedd Preswyl a Nyrsio'r Cyngor ar gyfer 2022/23 er mwyn cefnogi'r farchnad a thalu pris teg am ofal preifat. Ar gyfer lleoliadau Nyrsio EMI, sef gofal nyrsio ar gyfer unigolion sydd yn dioddef o ddementia, penderfynwyd ar ffi o £900 yr wythnos. Roedd y ffi ymysg yr uchaf yng Nghymru ar y pryd, ac mae'n parhau i fod.</p> <p>Serch hynny, mae nifer o'r Darparwyr Nyrsio EMI yng Ngwynedd yn gwrthod derbyn y ffi o £900 yr wythnos, ac yn hawlio ffioedd uwch.</p>	404,110
ECONOMI A CHYMUNED			
Bid 5	Materion Cyllidol Byw'n Iach - cynyddu swm contract	<p>Dyhead Bwrdd Cwmni Byw'n Iach yw cynnal lefelau cyflog sydd yn gymharol â chyflogau staff Cyngor Gwynedd. Bu cynnydd i gyflogau Awdurdodau Lleol eleni, ond 2% oedd codiad cyflog i staff y cwmni oedd eisoes wedi ei gynnwys yng Nghynllun Busnes 2022/23. Mae gwaith cyfrifo yn dangos fod angen codiad cyflog cyfwerth â oddeutu 10.3% erbyn 2023/24, er mwyn cyfarch y blwch a hefyd adeiladu canran isel o chwyddiant ar gyfer codiadau tebygol i'r gweithlu sector cyhoeddus yn 2023/24.</p> <p>Yn hanesyddol, mae'r cwmni wedi defnyddio cynnydd ffioedd i gyfarch costau chwyddiant a chreu cyllideb gytbwys. Yn fras, mae 1% o chwyddiant costau wedi cael ei gydbwysu gan 1% o gynnydd mewn ffioedd. Mae'r bid hefyd yn cyfarch yr hyn a ragwelir ar gyfer 2023/24 o ran CPI. Mae'r cynnydd yma yn ei hun yn golygu codi ffioedd oddeutu 3.5%. Yn sgil yr argyfwng costau byw, mae risg sylweddol o golli cwsmeriaid pe byddai'r cwmni'n codi ffioedd 13.8% i gwsmeriaid. Y ffigwr sydd wedi'i ddefnyddio i bwrpas y bid yma yw cynnydd o 6% mewn ffioedd i gwsmeriaid.</p>	332,000
CYFANSWM BIDIAU PARHAOL REFENIW			2,748,170